


# FFRAMWAITH LLETY A CHYMORTH I YMADAWYR GOFAL YNG NGHYMRU

## Y Fframwaith Cyfreithiol

**sheltercymru.org.uk**
Charity no. 515902

SHELTER CYMRU

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

# CYNNWYS

**Deddfwriaeth Gadael Gofa** ........................................1
**Deddfwriaeth Tai a Digartrefedd** ............................ 2
**G v Southwark**........................................................... 3
**Cysylltiad Lleol a Digartrefedd**................................. 3
**Cysylltiad lleol a dyrannu tai cymdeithasol**.............4

# DEDDFWRIAETH GADAEL GOFAL

Mae gan bobl sy'n gadael gofal yng Nghymru amrywiaeth o hawliau wedi'u gosod mewn deddfwriaeth i sicrhau eu bod yn cael eu cartrefu'n briodol. Yn ogystal, mae pobl sy'n gadael gofal yn derbyn rhywfaint o gymorth ychwanegol trwy'r ddeddfwriaeth gyffredinol yn ymwneud â digartrefedd. Mae'r adran hon yn amlinellu'r ddeddfwriaeth allweddol a'r dehongliad ohoni trwy gyfraith achosion.

Mae Rhan Chwech o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a Rhan Chwech o'r Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya)[1] yn gosod dyletswyddau amrywiol ar awdurdodau lleol tuag at bobl ifanc mewn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal, gan gynnwys dyletswyddau yn ymwneud â llety. Mae'r Ddeddf yn nodi bod dyletswyddau yn amrywio gan ddibynnu ar statws y bobl sy'n gadael gofal, sy'n cael eu grwpio'n chwe chategori.[2] Dyma'r chwe chategori;

- Categori un: (Nodir yn y cod fel person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n derbyn gofal yn 16 neu 17 oed)
- Categori dau: (Nodir yn y cod fel person ifanc sy'n gadael gofal o dan 18 oed)
- Categori tri: (Nodir yn y cod fel person ifanc sy'n gadael gofal 18 oed neu drosodd)
- Categori pedwar: (Nodir yn y cod fel person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n ailgysylltu â gofal at ddibenion addysg neu hyfforddiant)
- Categori pump: (Nodir yn y cod fel person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sydd wedi gadael gofal o dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig)
- Categori chwech: (Nodir yn y cod fel person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal nad oedd yn cymhwyso fel person sy'n gadael gofal.)

Hefyd, mae'r rheoliadau a'r canllawiau yn egluro natur llety addas ar gyfer pobl sy'n gadael gofal a'r ffaith fod yn rhaid i awdurdodau lleol ystyried y materion a nodwyd yn Atodlen Tri i Reoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015.[3] Ni ddylid **darllen yr Atodlen hon fel rhestr wirio:** wrth werthuso addasrwydd eiddo penodol, mae'n bosibl na fydd awdurdod lleol yn fodlon bod y llety yn 'addas' mewn perthynas â phob ffactor. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd eiddo mewn lleoliad delfrydol, tra y bydd 'fforddiadwyedd' yn cael ei ddylanwadu gan y lleoliad a newidiadau yn amgylchiadau ariannol y person ifanc. Mae'r rheoliadau yn diffinio llety addas fel:

- llety sydd, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, yn addas ar gyfer y person â phrofiad o fod mewn gofal yng ngoleuni ei anghenion, gan gynnwys ei anghenion iechyd
- y mae'r awdurdod lleol cyfrifol wedi ei fodloni mewn cysylltiad â chymeriad ac addasrwydd y landlord neu ddarparwr arall
- y mae'r awdurdod lleol cyfrifol (i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol) wedi cymryd i ystyriaeth ddymuniadau a theimladau, ac anghenion addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth y person â phrofiad o fod mewn gofal

Bydd angen i wasanaethau gadael gofal sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer gwirio addasrwydd cyn bod person sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn symud i mewn i eiddo. Dylai gwasanaethau sefydlu cysylltiadau gwaith da gyda gwasanaethau tai ac amgylcheddol lleol er mwyn derbyn cyngor a chymorth gyda'r dasg hon. Yn ymarferol, dylai'r broses sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau ar fyr rybudd, fel bod pobl sy'n gadael gofal yn gallu cael gafael ar eiddo.

Os yw archwiliadau ar gyfer addasrwydd llety yn nodi'r angen am welliannau er mwyn sicrhau bod safon yr eiddo yn dderbyniol, mae'n bosibl y bydd angen trefnu i gwblhau'r archwiliadau hyn ar ôl caffael yr eiddo ar gyfer y person sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Er enghraifft, gallai'r awdurdod gynorthwyo'r person i addurno'r eiddo neu ddarparu cyllid i wella ei ddiogelwch. Yn yr un modd, rhaid rhoi gwybodaeth drylwyr i bobl ifanc am sut y gallan nhw dderbyn cymorth os oes problemau'n codi gyda'u cartref. Oherwydd anghenion amrywiol pobl ifanc sy'n gadael gofal a'r modd y bydd yr anghenion hyn yn newid dros amser, bydd angen amrywiaeth o ddewisiadau llety lled-annibynnol ac annibynnol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal. Gallen nhw gynnwys:

- galluogi pobl ifanc i aros yn y llety lle'r oedden nhw'n byw wrth dderbyn gofal – er enghraifft, drwy newid lleoliad maethu i fod yn drefniant neu dŷ llety â chymorth ôl-18
- tŷ llety â chymorth, ac eithrio gyda chyn ofalwyr
- mathau eraill o dai â chymorth, gan gyfuno llety â chymorth a chyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- fflatiau hyfforddi lle mae pobl ifanc yn gallu 'ymarfer' byw yn fwy annibynnol heb effeithio ar eu dewisiadau tai ar gyfer y dyfodol

1 Llywodraeth Cymru (2018) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 6 Cod Ymarfer (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya (Fersiwn 2) Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-6-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-lletya.pdf (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)
2 Ibid, tt.73-79.
3 Rheoliadau Ymadawyr Gofal (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/1820/schedule/3/made/welsh (Cyrchwyd 26 Ionawr 2022)

- llety arbenigol – er enghraifft, llety annibynnol gyda chymorth personol, neu leoliadau therapiwtig ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymorth penodol fel anableddau corfforol ac anawsterau iechyd meddwl
- llety annibynnol yn y sector rhentu cymdeithasol neu'r sector rhentu preifat, gyda chymorth hyblyg fel y bo'r angen
- byw gyda theuluoedd biolegol
- trefniadau byw ôl-18, lle y gall pobl ifanc aros gyda'u gofalwyr maeth ar ôl 18 oed a hyd at 21 oed (sef trefniant 'Pan Fydda i'n Barod')

Yng Nghymru, mae canllawiau statudol wedi'u cryfhau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud ymdrechion cynhwysfawr i osgoi defnyddio llety gwely a brecwast ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed.[4] Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[5] yn pennu gofynion ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol yn ymwneud â llety plant sy'n derbyn gofal. Mae adran 75 o Ddeddf 2014 **yn ei gwneud yn ofynnol** i awdurdodau lleol sicrhau digon o lety yn eu hardaloedd i'r plant sy'n derbyn gofal ganddyn nhw.[6]

Fe wnaeth dyfarniad yn 2010 gan y Llys Apêl egluro'r ddyletswydd ar awdurdodau gwasanaethau plant i ddarparu llety ar gyfer pobl ifanc dros 18 oed sy'n gadael gofal (sy'n cael eu diffinio fel pobl ifanc categori tri[7]) mewn rhai amgylchiadau. Dyma gasgliad R (on the application of SO) v Barking and Dagenham[8]: '…If the former relevant child is unable to access appropriate accommodation through some other means (such as through a combination of a council tenancy and housing benefit), and the provision of accommodation is necessary for that care experienced person's welfare, then social services will be under a duty to provide or arrange suitable accommodation.'

Nod Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[9] yw newid y broses o reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan roi ansawdd a gwelliant wrth wraidd rheoleiddio, cryfhau diogelwch ar gyfer y rhai sydd ei angen, a sicrhau bod gwasanaethau yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel. Mae'r Ddeddf yn cefnogi nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[10], sy'n ymgorffori hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yn gyfraith.

# DEDDFWRIAETH TAI A DIGARTREFEDD

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014[11] yn amlinellu gofynion ar gyfer awdurdodau lleol i gynorthwyo pobl sy'n ddigartref. Mae Rhan 2 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynorthwyo ymgeiswyr digartref sy'n gymwys i gael cymorth (yn fras, y rhai nad yw eu statws mewnfudo wedi'i gyfyngu) trwy:

- Asesu i benderfynu a ydyn nhw'n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref
- Drafftio cynllun tai personol neu gynllun tebyg i gynnwys camau rhesymol sydd i'w cymryd gan yr awdurdod lleol a'r ymgeisydd i atal digartrefedd neu helpu i sicrhau llety (gyda therfyn amser o 56 diwrnod)
- Darparu llety addas dros dro yn ystod y 56 diwrnod i ymgeisydd mewn angen blaenoriaethol (categorïau penodedig o bobl)
- Os nad oes llety addas wedi ei ganfod ar ddiwedd y 56 diwrnod, sicrhau llety addas i'r rhai sydd mewn angen blaenoriaethol ac nad ydyn nhw'n ddigartref yn fwriadol. Gall awdurdodau lleol atgyfeirio ymgeisydd nad oes ganddo gysylltiad lleol i awdurdod lleol arall (er bod rhai eithriadau i hyn)
- Hefyd, gall awdurdodau lleol ddefnyddio'u disgresiwn wrth benderfynu a oes gan aelwyd gysylltiad lleol

Mae newidiadau diweddar i'r ddeddfwriaeth yn cynnwys:

- Ychwanegu 'Person sy'n cysgu allan' fel yr unfed categori ar ddeg o Angen Blaenoriaethol o dan Adran 71 (2)) o dan ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014
- Cynnwys argyfyngau iechyd y cyhoedd yn y rhestr o ddigwyddiadau argyfwng (fel llifogydd) o dan Erthygl 6A

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014[12] yn gosod dyletswydd ar awdurdodau tai i fod â strategaeth ar gyfer atal digartrefedd a sicrhau y bydd llety a chymorth ar gael i bobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i fabwysiadu strategaeth yn 2018[13], gan ymgysylltu ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried eu strategaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau.

4 Llywodraeth Cymru (2016) Dyrannu Llety a Digartrefedd: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol, tt 299-300. Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities.pdf (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)
5 Llywodraeth Cymru (2014) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ar gael yn:https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted/welsh (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)
6 Llywodraeth Cymru (2018) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) (Fersiwn 2). tt. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-6-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-lletya.pdf (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)
7 Ibid.
8 Family Law Week (2010) R (SO) v Bwrdeistref Llundain Barking a Dagenham. Ar gael yn: https://www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed67968 (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)
9 Llywodraeth Cymru (2016) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/welsh (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)
10 Llywodraeth Cymru (2018) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) (Fersiwn 2) Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/cod-ymarfer-rhan-6-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-lletya.pdf (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)
11 Llywodraeth Cymru (2014) Deddf Tai. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/7/contents/welsh (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)
12 Ibid.
13 Llywodraeth Cymru (2014) Deddf Tai 2014. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/7/contents/welsh (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)

Mae Cod Canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd[14] yn nodi gofynion ar gyfer awdurdodau tai lleol wrth gyflawni eu swyddogaethau digartrefedd. Mae elfennau o'r canllawiau hyn yn berthnasol hefyd i awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol wrth arfer eu swyddogaethau yn ymwneud â digartrefedd. Mae'r Cod yn nodi bod pobl ifanc sy'n gadael gofal ymysg y grwpiau sy'n debygol o fod mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref nag eraill. Mae'n nodi'r canlynol hefyd:

- Gall gwybodaeth adrannau gwasanaethau cymdeithasol am nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal gynorthwyo adrannau tai i gynnal adolygiadau digartrefedd
- Ble bynnag y bo modd, mae'n bwysig bod anghenion tai pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael eu diwallu cyn eu bod yn gadael gofal
- Bydd gwneud trefniadau ar gyfer llety a sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn derbyn cymorth tai addas yn elfen hanfodol o gynllun llwybr person â phrofiad o fod mewn gofal
- Lle bo angen, dylid gwneud trefniadau ar gyfer asesu ar y cyd gan wasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau tai fel rhan o asesiad amlasiantaeth i lywio'r cynllun llwybr
- Bydd awdurdodau unigol yn penderfynu ym mhob achos a yw pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael eu lletya gan y gwasanaethau cymdeithasol neu gan yr awdurdod tai. Mae angen sicrhau bod protocolau sydd wedi'u cytuno ar y cyd ar waith ynglŷn ag asesu anghenion

# G V SOUTHWARK

Ym mis Mai 2009, cafwyd dyfarniad hynod bwysig gan Dŷ'r Arglwyddi yn achos R (G) v London Borough of Southwark,[15] sy'n effeithio ar sut mae awdurdodau lleol yn darparu llety a chymorth i bobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddigartref. Mae dyfarniad yr achos yn golygu'r canlynol:

- Mae'r brif ddyletswydd i berson digartref 16 neu 17 oed yn dod o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a gwasanaethau plant sy'n gyfrifol am y ddyletswydd barhaus i ddarparu llety a chymorth ar gyfer y person â phrofiad o fod mewn gofal. Mae hyn yn cynnwys yr ystod o gymorth sydd ar gael i blentyn sy'n derbyn gofal a rhywun sy'n gadael gofal.
- Mae angen darparu llety dros dro o dan y ddeddfwriaeth ddigartrefedd i berson ifanc 16 neu 17 oed digartref sy'n gwneud cais i awdurdod tai. Wedyn, dylid atgyfeirio'r unigolyn at wasanaethau plant er mwyn asesu ei anghenion o dan adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[17]



# CYSYLLTIAD LLEOL A DIGARTREFEDD

O dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, sy'n ymdrin â digartrefedd,[18] ceir adrannau sy'n caniatáu i un awdurdod drosglwyddo'r ddyletswydd ddigartrefedd i awdurdod arall. Mae cysylltiad lleol yn brawf dewisol mewn asesiadau digartrefedd, ond mewn gwirionedd bydd pob awdurdod lleol yn defnyddio'r prawf yn y rhan fwyaf o achosion (ni ddylid ystyried atgyfeirio achosion lle mae rhywun yn ffoi rhag trais).

O dan Adran 81 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014,[19] mae gan berson gysylltiad lleol ag ardal awdurdod tai lleol os oes gan y person gysylltiad â hi:

- Gan fod y person yn preswylio yno fel arfer, neu wedi gwneud hynny yn y gorffennol, a bod y preswyliad hwnnw o ddewis y person ei hun
- Gan fod y person yn cael ei gyflogi yno
- O ganlyniad i gysylltiadau teuluol
- O ganlyniad i amgylchiadau neilltuol

Yn ôl Dyrannu Llety a Digartrefedd: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol,[20] os yw pobl ifanc yn derbyn gofal, wedi eu gosod y tu allan i'r ardal, yn gadael gofal ac yn dymuno dychwelyd i'r ardal roedd ganddyn nhw gysylltiad â hi yn wreiddiol, dylid derbyn bod ganddyn nhw gysylltiad â'r ardal, hyd yn oed os ydyn nhw wedi cael eu lleoli am gryn amser yn rhywle arall. Wrth asesu a oes gan aelwyd ymgeisydd gysylltiad lleol â'r ardal, dylai awdurdod hefyd ystyried a oes gan unrhyw berson y gellid disgwyl yn rhesymol iddo fyw gyda'r ymgeisydd gysylltiad o'r fath. Hefyd, dylid ystyried bod gan y rhai sy'n gadael gofal ac sydd am aros yn ardal y lleoliad gysylltiad lleol os ydyn nhw'n bodloni'r prawf cysylltiad lleol.[21] Felly, os yw person ifanc sy'n gadael gofal wedi'i leoli y tu allan i'r ardal ac yn dymuno dychwelyd i'w ardal wreiddiol, rhaid i awdurdod yr ardal wreiddiol dderbyn cysylltiad lleol â hi.

---

14 Llywodraeth Cymru (2016) Cod Canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/dyrannu-llety-digartrefedd-canllawiau-ar-gyfer-awdurdodau-lleol (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)
15 Family Law (2009) Local Authority/ Housing: R (G) v London Borough of Southwark. Ar gael yn: https://www.familylaw.co.uk/news_and_comment/r-g-v-southwark-london-borough-council (Cyrchwyd 13 Ionawr 2022)
16 Llywodraeth Cymru (2014) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ar gael yn:https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted/welsh (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)
17 Ibid
18 Llywodraeth Cymru (2014) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ar gael yn:https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted/welsh (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)
19 Llywodraeth Cymru (2014) Deddf Tai. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/7/contents/welsh (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)
20 Llywodraeth Cymru (2016) Dyrannu Llety a Digartrefedd: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol. Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities.pdf (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)
21 Llywodraeth Cymru (2016) Dyrannu Llety a Digartrefedd: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol. Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities.pdf (Cyrchwyd 12 Ionawr 2022)

# CYSYLLTIAD LLEOL A DYRANNU TAI CYMDEITHASOL

Mae Rhan Chwech o Ddeddf Tai 1996 yn ymdrin â dyrannu tai cymdeithasol.[22] Mae adran 167 (2A) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol (trwy ei gynllun dyrannu) roi blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n perthyn i gategori 'blaenoriaeth resymol' ar gyfer tai cymdeithasol. Mae categorïau blaenoriaeth resymol yn cynnwys pobl y mae dyletswydd ddigartrefedd yn ddyledus iddyn nhw o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, pobl sy'n byw mewn tai anaddas neu orlawn, neu sydd â mater meddygol neu anabledd sy'n cael ei effeithio gan eu tai, ac ymgeiswyr a fyddai'n wynebu caledi pe na baent yn cael tai cymdeithasol. Mae llawer o awdurdodau lleol yn cynnwys pobl ifanc sy'n gadael gofal fel grŵp sy'n perthyn i gategori blaenoriaeth resymol, ond nid oes gofyniad statudol i wneud hynny o reidrwydd, gan ei bod yn dibynnu ar feini prawf yr awdurdod lleol yn ei bolisi dyrannu a yw caledi yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth resymol.

Mae'n bosibl y bydd angen i bobl ifanc sydd wedi bod yn byw mewn lleoliadau y tu allan i ardal yr awdurdod ac sy'n dymuno aros yn yr ardal leol honno pan fyddan nhw'n gadael gofal (yn hytrach na dychwelyd i ardal yr awdurdod lleol lle maen nhw'n derbyn gofal) ddarparu tystiolaeth bod ganddyn nhw gysylltiad lleol. Fodd bynnag, mae angen penderfynu ar bob achos unigol yn ôl ei haeddiant ei hun oni bai bod y cynllun dyrannu yn pennu sut mae cysylltiad lleol yn cael ei ddehongli y tu hwnt i'r pedwar maes preswyliad, cyflogaeth, cysylltiad teuluol a rhesymau neilltuol. Er enghraifft, gallai awdurdod tai benderfynu y gallai cysylltiad teuluol gynnwys rhywun sydd wedi'i leoli gyda gofalwyr maeth yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw, neu fod 'amgylchiadau neilltuol' yn berthnasol i rywun mewn gofal sydd wedi'i leoli yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw.

## Deddfwriaeth Tenantiaeth Cymru: Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Cyflwynwyd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ar 1 Rhagfyr 2022, ac mae'n darparu fframwaith newydd ar gyfer pob tŷ sy'n cael ei rentu yng Nghymru. Mae'n diogelu tenantiaid a thrwyddedeion i raddau mwy, gan amlinellu eu hawliau a'u cyfrifoldebau yn gliriach. Mae tenantiaid a thrwyddedeion yn cael eu disgrifio fel 'deiliaid contract' o dan y ddeddf newydd. Rhaid i landlordiaid roi 'contract meddiannaeth' i ddeiliaid contract, gan ddisodli trwyddedau neu gytundebau tenantiaeth.

Nid yw pobl o dan 18 oed yn gallu bod yn ddeiliaid contract, felly mae'r adran isod ar denantiaethau ar ymddiriedaeth yn berthnasol o hyd yn yr achosion hynny. Ar gyfer deiliaid contract 18 oed a throsodd, ceir dau fath o gontract meddiannaeth:

- Contract diogel: Mae hwn yn disodli tenantiaethau diogel a gyhoeddwyd gan awdurdodau lleol a thenantiaethau sicr a gyhoeddwyd gan gymdeithasau tai;
- Contract safonol: Dyma'r contract a fydd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf yn y sector rhentu preifat (lle nad yw'r landlord yn gyngor/awdurdod lleol neu'n gymdeithas dai). Gall awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ddefnyddio'r contract hwn mewn rhai amgylchiadau (e.e. 'contract safonol â chymorth' ar gyfer llety â chymorth)

Rhaid cyflwyno'r contract meddiannaeth mewn 'datganiad ysgrifenedig'. Diben y datganiad ysgrifenedig yw cadarnhau telerau'r contract.

Mae'r Ddeddf Rhentu Cartrefi yn cynnwys newidiadau pwysig eraill i gyfraith tai hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ffitrwydd i fod yn Gartref: Mae'n rhaid i landlordiaid sicrhau bod annedd yn ffit i fod yn gartref (FFHH). Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, profion diogelwch trydanol a sicrhau bod larymau mwg a synwyryddion carbon monocsid yn cael eu gosod ac yn gweithio. Yn ogystal, nid yw rhent yn daladwy am unrhyw gyfnod pan nad yw'r eiddo yn ffit i fod yn gartref
- Mae'n darparu mwy o ddiogelwch i bobl sy'n byw yn y sector rhentu preifat
- Rhaid i landlordiaid roi hysbysiad chwe mis o leiaf (hysbysiad 'adran 173' yn y Ddeddf) i ddod â'r contract i ben, ar yr amod nad yw deiliad y contract yn torri un o delerau'r contract, a elwir yn aml yn hysbysiad 'heb fai' (wedi cynyddu o hysbysiad dau fis)
- Ni ellir cyhoeddi hysbysiadau heb fai tan chwe mis ar ôl y dyddiad symud i mewn ('dyddiad meddiannaeth' y contract)
- Amddiffyniad yn erbyn 'troi allan dialgar': ni all landlordiaid gyhoeddi hysbysiad heb fai dim ond oherwydd bod deiliad y contract wedi cwyno bod y cartref mewn cyflwr gwael. Byddai angen i'r Llys fod yn fodlon nad yw'r landlord wedi cyhoeddi'r hysbysiad er mwyn osgoi gwneud y gwaith atgyweirio
- Contractau ar y Cyd: Gellir ychwanegu neu ddileu deiliaid contract o gontractau meddiannaeth heb yr angen i ddod ag un contract i ben a dechrau un arall. Mae hyn yn golygu bod y broses o reoli contractau ar y cyd yn haws ac mae'n helpu pobl sy'n dioddef cam-drin domestig trwy sicrhau bod modd targedu'r cam-driniwr i'w droi allan
- Hawliau Olynu Gwell: Mae'n galluogi person ('olynydd') 'â blaenoriaeth' ac 'wrth gefn' i olynu i'r contract meddiannaeth. Mae hyn yn caniatáu dwy olyniaeth i'r contract, er enghraifft gŵr neu wraig ac yna aelod arall o'r teulu. Yn ogystal, mae hawl olyniaeth newydd i ofalwyr wedi'i chreu
- Gweithdrefn Cefnu: Gall landlordiaid adfeddiannu eiddo y cefnwyd arno heb ofyn am orchymyn llys, ar ôl cyflwyno hysbysiad rhybudd pedair wythnos a gwneud ymchwiliadau i sicrhau bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr eiddo



Llywodraeth (1996) Deddf Tai 1996. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/anaw/1996/52/contents/welsh (Cyrchwyd 167 Ionawr 13)

- Llety â Chymorth: Os oes rhywun yn byw mewn llety â chymorth am fwy na chwe mis, mae ganddo hawl i 'gontract safonol â chymorth'. Mae'r contract safonol â chymorth yn gweithredu mewn ffordd debyg i'r contract safonol. Fodd bynnag, gall y landlord gynnwys telerau yn y contract sy'n ymwneud â'r canlynol:
- y gallu i newid os yw deiliad y contract yn byw yn yr adeilad;
- y gallu i'r landlord wahardd deiliad y contract o'r annedd dros dro am hyd at 48 awr, am uchafswm o dair gwaith mewn chwe mis

## Tenantiaethau ar Ymddiriedaeth

Un o egwyddorion sefydledig cyfraith eiddo yw nad yw rhywun o dan 18 oed yn gallu dal ystad gyfreithiol mewn tir (a.1 (6) Deddf Cyfraith Eiddo 1925; para 1(1) (b), Atodlen 1, Deddf Ymddiriedolaethau Tir a Phenodi Ymddiriedolwyr 1996). Mae hyn yn golygu na all rhywun o dan 18 oed ddal tenantiaeth, gan ei bod yn ystad gyfreithiol mewn tir. Mae Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016 (a.7 (6)) yn mynd gam ymhellach trwy ei gwneud yn glir na all unrhyw un o dan 18 oed fod yn ddeiliad contract o dan gontract meddiannaeth chwaith. Mae hyn yn golygu na all rhywun o dan 18 oed ddal contract meddiannaeth, nac yn wir y denantiaeth sy'n perthyn iddo.

## Beth yw'r goblygiadau i rywun dan 18 oed?

Nid oes gan Lywodraeth Cymru bwerau dirprwyedig i ddiwygio'r egwyddorion uchod ym maes cyfraith eiddo. O ganlyniad, nid oes unrhyw beth yn y Ddeddf Rhentu Cartrefi a fydd yn newid yr egwyddor na all rhywun o dan 18 oed ddal tenantiaeth gyfreithiol. Nid oes unrhyw newid chwaith i'r egwyddor bod rhywun o dan 18 oed yn gallu 'elwa' mewn ecwiti o denantiaeth, felly yn unol â darpariaeth para 1, Atodlen 1 Deddf Ymddiriedolaethau Tir a Phenodi Ymddiriedolwyr 1996, gellir dal y denantiaeth ar 'ymddiriedaeth' er ei fudd.

Fodd bynnag, mae adran 239 o Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru 2015 yn nodi na ellir creu unrhyw denantiaethau neu drwyddedau newydd o dan y cyfundrefnau statudol gwahanol (h.y. sicr, diogel, tenantiaeth fyrddaliol sicr ac ati) ar ôl 15 Gorffennaf 2022. O ganlyniad, bydd unrhyw fuddiant ecwiti posibl sydd gan y person dan 18 oed yn deillio o denantiaeth neu drwydded cyfraith gyffredin yn unig. Mae'r denantiaeth neu'r drwydded cyfraith gyffredin wedi'i heithrio'n benodol rhag bod yn gontract meddiannaeth tra bod yr unigolyn o dan 18 oed, felly ni fydd yn cael ei diogelu gan ddarpariaethau Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2015.

Felly, mae'r dewisiadau ar gyfer rhywun o dan 18 oed yn debyg i'r dewisiadau presennol, gydag un gwahaniaeth mawr - hynny yw, mae'r denantiaeth neu'r drwydded sy'n cael ei dal ar ymddiriedaeth ar ei gyfer yn cael ei diogelu gan egwyddorion cyfraith gyffredin yn unig ac nid gan unrhyw gyfundrefn statudol, gan gynnwys cyfundrefn Rhentu Cartrefi Cymru 2015.





## Sut gall plentyn 16/17 oed elwa ar denantiaeth ôl-Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2015?

- Gall landlord ddal tenantiaeth cyfraith gyffredin ar ymddiriedaeth i'r unigolyn o dan 18 oed nes ei fod yn troi'n 18 oed. Mae'r unigolyn dan 18 oed yn gallu elwa ar y denantiaeth a byw yn y llety ond mae'r teitl cyfreithiol i'r denantiaeth yn parhau i fod yn eiddo i'r landlord. Gall y dewis hwn achosi problemau os yw'r landlord yn ceisio sicrhau meddiant o'r llety, oherwydd ni all y landlord gyflwyno hysbysiad iddo ef ei hun
- Gall trydydd parti (megis aelod o'r teulu sy'n oedolyn, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr cymorth) ddal tenantiaeth cyfraith gyffredin ar ymddiriedaeth ar gyfer yr unigolyn o dan 18 oed nes ei fod yn troi'n 18 oed. Mae'r unigolyn dan 18 oed yn gallu elwa ar y denantiaeth cyfraith gyffredin a byw yn y llety ond mae teitl cyfreithiol y denantiaeth yn parhau i fod yn eiddo i'r landlord
- Mae trydydd parti yn ymrwymo i gontract meddiannaeth ar y cyd gyda'r unigolyn dan 18 oed. Mae deiliad y contract sy'n oedolyn yn dal y contract meddiannaeth fel ymddiriedolwr ar gyfer dau ddeiliad y contract ar y cyd nes bod y person ifanc yn troi'n 18 oed

## Beth sy'n digwydd pan fydd y person sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn troi'n 18 oed?

Unwaith y bydd yr unigolyn yn troi'n 18 oed, mae'n gallu dal buddiant cyfreithiol mewn tir, felly, mae'n gallu dal y denantiaeth neu'r drwydded ei hun, ac ni fydd angen ymddiriedolwr arno. Pan fydd yr unigolyn yn troi'n 18 oed, mae Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2015 (s233) yn nodi ei bod yn bosibl creu contract meddiannaeth ac i'r unigolyn ei ddal yn ei enw ei hun. Bydd angen ystyried nifer o gwestiynau ar yr adeg hon:

- A yw'r denantiaeth neu'r drwydded yn gontract meddiannaeth o dan ddarpariaethau Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2015?
- Pwy yw deiliaid y contract o dan y contract?
- Os yw'n gontract meddiannaeth, a yw'n gontract diogel neu'n gontract safonol?

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch timau

Mae'r ddeddfwriaeth a'r gyfraith achosion yn ymwneud â phobl sy'n gadael gofal a'u tai yn gallu bod yn gymhleth ac yn gallu effeithio ar bobl ifanc mewn ffyrdd gwahanol ac ar adegau gwahanol. I ba raddau y mae staff yn eich timau gadael gofal a thai yn gwybod am y cyd-destun cyfreithiol?

Wrth ystyried pa fath o dai y gall pobl ifanc gael gafael arnyn nhw, pa fynediad sydd ganddyn nhw at gyllid? Mae'n bosibl y bydd gan bobl ifanc hawl i ffynonellau ariannu gwahanol, gan ddibynnu ar eu profiadau yn y gorffennol a'u sefyllfa bresennol. A oes gan eich timau y wybodaeth ddiweddaraf am y ffynonellau ariannu sydd ar gael? Gallen nhw gynnwys:

- Budd-dal Tai
- Budd-daliadau incwm isel
- Hawliau i gredydau treth
- Credyd Cynhwysol
- Cymorth lles lleol
- Cynlluniau cymorth treth gyngor
- Budd-daliadau plant
- Budd-daliadau anabledd
- Junior ISA
- Lwfans sefydlu cartref (grant gadael gofal)
- Arian o'r Cynllun Iawndal am Anafiadau Troseddol

## Hyfforddi a Datblygu

Os yw'r cwestiynau uchod wedi ysgogi awydd i wella'ch arferion da neu ddatblygu dealltwriaeth a gallu yn eich tîm, cofiwch mai Shelter Cymru yw un o'r prif ddarparwyr hyfforddiant yng Nghymru ar gyfraith tai a materion cysylltiedig. Mae'r tîm yn darparu hyfforddiant e-Ddysgu a hyfforddiant byw ar amrywiaeth o bynciau perthnasol. Maen nhw wedi'u hatodi yma.



SHELTER CYMRU

**sheltercymru.org.uk**

Registered charity no. 515902